# Cynllun Blynyddol Ofcom 2014/15: Blaenoriaethau

*Dyma flaenoriaethau gwaith Ofcom ar gyfer y flwyddyn ariannol. Bydd Ofcom yn mesur cynnydd wrth gyflawni'r rhain yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014/15.*

| Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus | Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm | Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi | Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed | Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir |
|---|---|---|---|---|
| • Sicrhau cystadleuaeth a buddsoddiad effeithiol yn y band eang presennol ac mewn band eang cyflym iawn<br>• Hybu dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hawdd<br>• Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn ei gwneud yn haws newid rhwng darparwyr cyfathrebu | • Rheoli sbectrwm ac ymyrraeth ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014<br>• Paratoi ar gyfer dyfarnu'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz a'r newid posibl mewn defnydd ar gyfer y band 700MHz<br>• Galluogi defnyddio dyfeisiau gofod gwyn ac ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer rhannu bandiau ymhellach ac mewn modd priodol | • Sicrhau darpariaeth barhaus y gwasanaeth post cyffredinol | • Diwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder o ran prisiau | • Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau digidol |

**Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith**

- Sicrhau bod cynigion 'Connected Continent' y Comisiwn Ewropeaidd yn cael eu cyflwyno mewn modd sy'n cyd-fynd â buddiannau'r DU

# Cynllun Blynyddol Ofcom 2014/15: Prif feysydd gwaith

*Mae gan Ofcom nifer o brif feysydd gwaith hefyd: darnau ychwanegol o waith penodol i Ofcom eu cyflawni yn y flwyddyn nesaf.*

| Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus | Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm | Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi | Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed | Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir |
|---|---|---|---|---|
| • Monitro dulliau sylfaenol i reoli traffig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â dull Ofcom o ymdrin â niwtraliaeth y rhyngrwyd<br>• Adolygu'r fframwaith ar gyfer adrodd ariannol rheoleiddiol mewn telegyfathrebu<br>• Gweithio i sicrhau cystadleuaeth effeithiol o ran gwasanaethau teledu drwy dalu<br>• Cynnal yr adolygiad o reolaethau ffioedd ar gyfer cyfraddau terfynu gwasanaethau symudol<br>• Cynnal yr adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes | • Parhau i adolygu gofynion sbectrwm y sector gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE)<br>• Cynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm data symudol<br>• Deall effaith a rôl derbynyddion ar ddefnyddio sbectrwm yn effeithlon<br>• Gwella'r defnydd a fwriedir o'r sbectrwm UHF<br>• Cefnogi gofynion sbectrwm Prosiect Cyfathrebu Symudol Gwasanaethau Brys y Llywodraeth<br>• Archwilio gofynion a defnydd posibl o dechnoleg peiriant i beiriant<br>• Gweithredu Cyfarwyddyd y llywodraeth ar ffioedd trwydded blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900 a 1800MHz | • Deall a hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr agored i niwed<br>• Parhau i hybu gwell darpariaeth symudol a gwybodaeth am wasanaethau er mwyn llywio penderfyniadau polisi a phenderfyniadau defnyddwyr<br>• Gweithio ar y cyd â'r llywodraeth a'r diwydiant i geisio sicrhau bod band eang cyflym iawn ar gael yn eang ar gyfer darpariaeth sefydlog a symudol<br>• Gwerthuso fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu electronig craidd, ac adrodd ar hyn | • Cefnogi cynlluniau'r diwydiant a'r llywodraeth i wella lefelau ffydd defnyddwyr mewn gwasanaethau rhyngrwyd<br>• Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed mewn ystod o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau niwsans a biliau annisgwyl o uchel | • Datblygu a chefnogi'r gwaith o reoleiddio radio yn y dyfodol<br>• Cwblhau'r gwaith o drwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd<br>• Gweithio i sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael ac y gellir ei ganfod |

**Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith**

- Paratoi ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC) ym mis Tachwedd 2015
- Sicrhau cryfder a chynaliadwyedd cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol
- Cyhoeddi adroddiad ar gyflwr seilwaith cyfathrebu'r DU

# Cynllun Blynyddol Ofcom 2014/15: Gwaith (‘rhaglenni’) parhaus

*Bydd Ofcom hefyd yn parhau i gyflawni gwaith ‘rhaglenni’ pwysig: ei wasanaethau busnes yn ôl yr arfer i randdeiliaid, i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr.*

**Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus**

- Gorfodi cystadleuaeth e.e. drwy ddatrys anghydfodau, ymchwilio i gwynion a gosod cosbau pan fo’n briodol
- Gweithredu mesurau i sicrhau bod rhifau daearyddol ar gael i’w dyrannu i ddarparwyr cyfathrebu
- Cynnal Asesiad o’r Effaith ar y Farchnad i gefnogi Profion Gwerth Cyhoeddus gan Ymddiriedolaeth y BBC

**Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm**

- Cynrychioli buddiannau'r DU yn weithredol ar bwyllgorau sbectrwm rhyngwladol
- Cynllunio aseiniadau sbectrwm a dyfarnu trwyddedau
- Cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu amgylchedd rheoleiddio rhyngwladol ar gyfer sbectrwm a sicrhau cydymffurfiaeth â'n dyletswyddau rhyngwladol perthnasol
- Gorfodi sbectrwm: rhoi cyngor a chynorthwyo mewn achosion o ymyrraeth; cymryd offer a gedwir heb awdurdod ac erlyn lle bo'n briodol

**Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi**

- Cynnal a chyhoeddi ymchwil marchnad a defnyddwyr, gan gynnwys Llythrennedd yn y Cyfryngau
- Rhoi cyngor i ddefnyddwyr ynghylch sut i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebu drwy gael mwy o bresenoldeb ar-lein
- Ymgysylltu â'r gwledydd a'r rhanbarthau yn barhaus

**Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed**

- Monitro'r rhai sy'n dal trwyddedau ar hyn o bryd i sicrhau eu bod yn addas ac yn briodol i ddal y trwyddedau hynny

**Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir**

- Sicrhau bod safonau rhaglenni’n cael eu gorfodi’n effeithlon ac effeithiol
- Gwella'r cydweithredu ag awdurdodau rheoleiddio clyweledol yn Ewrop i roi sylw i sialensiau awdurdodaethol

**Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a’i roi ar waith**

- Cefnogi a chynghori'r llywodraeth ynghylch rhoi polisïau ar waith lle bo'n briodol
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhyngwladol a chymryd rhan weithredol mewn rhwydweithiau rheoleiddio Ewropeaidd (gan gynnwys BEREC, RSPG, ERGP ac EPRA) i sicrhau cysondeb wrth reoleiddio
- Ymgymryd â gwaith parhaus i gefnogi gwytnwch y rhwydwaith, diogelwch seibr a mynediad i wasanaethau brys
- Gweithio gyda rheoleiddwyr economaidd eraill ar faterion sy’n berthnasol i fwy nag un sector